

**CYFARFOD: BWRDD PENSIWN**

**DYDDIAD: 23 Tachwedd 2020**

**TEITL: DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2019/20**

**PWRPAS: I HYSBYSU AELODAU'R BWRDD O FONITRO A PHERFFORMIAD BUDDSODDIADAU'R GRONFA BENSIWN**

**ARGYMHELLIAD: NODI'R WYBODAETH**

**AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

## **1. Cyflwyniad**


Mae perfformiad chwarterol y Gronfa Bensiwn yn cael ei fonitro gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau mewn cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Buddsoddi.

Mae'r rheolwyr asedau yn cael gwahoddiad i gyflwyno i'r Panel yn eu tro. Mae'r rheolwyr ecwiti gweithredol a bondiau gweithredol yn mynychu dau gyfarfod pob blwyddyn ac mae'r rheolwyr eraill yn mynychu unwaith y flwyddyn.


Tra bod monitro chwarterol a blynyddol yn cymryd lle, dylid nodi mai dychweliadau'r gronfa bensiwn dros y tymor hir yw'r nod, ac mae'n anochel bydd ychydig o amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, a perfformiad yn fwy anwedol o chwarter i chwarter. Yn gyffredinol, mae perfformiad rheolwyr asedau unigol yn cael eu hasesu dros 3 blynedd.

## 2. Gwerth farchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd

Gweler gwerth farchnad Cronfa Bensiwn Gwynedd dros y 10 mlynedd diwethaf yn y tabl isod:



Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010, ond gyda cwmpwys wedi digwydd ar 31 Mawrth 2020 oherwydd effaith pandemig COVID ar y farchnadoedd. Ers hynny, mae'r gwerthoedd wedi bownsio nol fel gwelir yn y graff isod, gyda gwerthoedd ecwiti byd eang yn parhau i gynyddu, yn enwedig yn yr wythnosau diwethaf wedi'r newydd am y posibilrwydd o frechlyn:



### 3. Perfformiad hyd at 30 Medi 2020

Ar 30 Medi 2020 roedd gwerth marchnad y Gronfa Bensiwn yn £2,218 miliwn gyda'r perfformiad yn erbyn y meincnod wedi ei nodi isod:

	Chwarter 1 2020/21 %	Chwarter 2 2020/21 %	1 blwyddyn i 30/09/20 %
Cronfa	11.5	2.2	0.2
Meincnod	10.0	2.2	-0.4
<b>Perfformiad Cymharol (Gross)</b>	<b>+1.5</b>	<b>+0.0</b>	<b>+0.6</b>

Cafwyd chwarter 1 cryf gyda'r marchnadoedd yn bownsio nol wedi'r cwmp a welwyd yn chwarter olaf 2019/20 gyda pherfformiadau cryf gan ecwiti rhyngwladol yn benodol yn y maes technoleg. Nid oedd ecwiti y Deyrnas Unedig wedi perfformio cystal gan bod nifer o stociau olew a banciau yn y DU. Cafwyd perfformiad mwy sefydlog yn chwarter 2 gyda marchnadoedd yn perfformio yn gryf yn yr Haf, ond yn arafu erbyn Medi gyda'r posibilrwydd o ail don.

#### Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Ecwiti

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ecwiti unigol ar 30 Medi 2020:

	Gwerth marchnad 30/09/20 £m	Perfformiad 3 mis %	Perfformiad 1 blwyddyn %
Black Rock	178.5	-1.4	-11.2
Meincnod		-1.2	-11.1
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-0.2</b>	<b>-0.1</b>
Black Rock Fundamental Indexation	137.5	-0.8	-10.0
Meincnod		-1.0	-10.7
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>0.2</b>	<b>0.7</b>
Black Rock Low Carbon	269.6	-	-
Meincnod		-	-
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-</b>	<b>-</b>
Fidelity Emerging Market Equity	57.1	5.2	9.0
Meincnod		4.7	5.2
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>0.5</b>	<b>3.6</b>
Wales PP Global Growth Fund	372.1	3.1	7.6
Meincnod		3.4	5.3
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-0.3</b>	<b>2.3</b>
Wales PP Global Opportunities Fund	372.9	3.0	5.1
Meincnod		3.4	5.3
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-0.4</b>	<b>-0.2</b>
Wales PP MAC Fund	169.9	-	-
Meincnod		-	-
<b>Perfformiad Cymharol</b>		<b>-</b>	<b>-</b>

Yn ystod y cyfnod bu symudiadau gyda trosglwyddiadau i ddau gronfa newydd sef Cronfa Carbon Isel Black Rock, a Cronfa Multi Asset Credit Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r Cronfa Absolute Return Bond hefyd yn cael ei lawsnsio dros ddiwedd y cyfnod.

Bu dychweliadau positif ar fondiau ac ecwiti, gyda pherfformiad cryf yn yr UDA a Siapan. Ceir perfformiad o dan y meincnod gan y Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ddiweddar oherwydd mae gan y portffolio rheolwyr gyda steiliau gwahanol a gyda cylchoedd bywyd gwahanol e.e. gwerth v's twf, ar hyn o bryd mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ond gall hyn newid yn y dyfodol.

### **Perfformiad Rheolwyr Buddsoddi Eiddo**

Mae'r tabl isod yn crynhoi perfformiad y Rheolwyr Asedau Eiddo unigol:

	<b>Gwerth marchnad 30/09/20 £m</b>	<b>Perfformiad 3 mis %</b>	<b>Perfformiad 1 blwyddyn %</b>
<b>Meincnod</b>		<b>0.2</b>	<b>-2.8</b>
UBS	47.1	0.9	-1.0
Lothbury Property Trust	60.0	-0.5	-4.2
Black Rock Property Fund	50.4	0.7	-2.3
Threadneedle TPEN	28.9	0.3	-2.8
Threadneedle Property Unit Trust	1.8	1.0	-2.7

Mae dychweliadau eiddo'r gronfa wedi perfformio yn dda yn gyffredinol i gymharu gyda'r meincnod. Nid oedd unrhyw fasnachu yn digwydd am gyfnod o fis Mawrth, ond mae'r farchnad wedi ail agor ym mis Medi.

Mae asedau preswyl a archfarchnadoedd wedi perfformio yn dda, ond nid yw'r stryd fawr wedi perfformio cystal, ac mae ansicrwydd ynglyn a dyfodol swyddfeydd. Mae Lothbury wedi perfformio yn is na'r meincnod oherwydd bod ganddynt amlygiad uchel i'r sector manwerthu. Mae'r rheolwyr eraill gyda amlygiad i sectorau megis safleodd diwydiannol a canolfannau iechyd ac felly wedi perfformio'n dda.

## **Grŵp Partners**

Mae Grŵp Partners yn gyfrifol am reoli buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd y Gronfa.

	<b>Gwerth marchnad 30/06/20* £m</b>
Partners Ecwiti Preifat	134.6
Partners Isadeiledd	44.9
<b>Cyfanswm</b>	<b>179.5</b>

\*Gwybodaeth 30/09/20 heb ei gyhoeddi eto.

Mae monitro perfformiad buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn dipyn anoddach nag asedau traddodiadol, megis bondiau wedi'i dyfynnu ac ecwiti. Mae gan gronfeydd ecwiti preifat hyd bywyd penodedig o tua 10-15 mlynedd. Dim ond pan mae asedau unigol yn cael eu gwerthu gellir cadarnhau gwir elw/ dychweliadau, ac felly ni ellir asesu gwir berfformiad nes mae'r gronfa wedi cau. Mae rhaglen y Gronfa ar gyfer buddsoddiadau ecwiti preifat ac isadeiledd yn cael ei adolygu yn flynyddol gan ein hymgynghorwyr, Hymans Robertson.

### **4. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.